Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref
David Jones OBE, DL
Cadeirydd Cymwysterau Cymru
a
Philip Blaker,
Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn,
Casnewydd
NP10 8UH

17 Tachwedd 2020

Annwyl Philip a David

Rwy'n ddiolchgar am y cymorth a'r cyngor manwl yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'i roi ac yn parhau i roi i mi.

Diben y llythyr hwn yw rhoi'r Cyfarwyddyd atodedig i chi o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chanslo arholiadau.

Rwy'n cydnabod bod digwyddiadau'r haf diwethaf, y ffaith bod Covid-19 yn parhau i amharu ar y sefyllfa a'r farn amrywiol ar y trefniadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn 2021 yn golygu bod hwn yn fater dyrys sydd dan bwysau mawr. Hefyd, rwy'n gwerthfawrogi eich hyblygrwydd a'ch ymatebolrwydd wrth geisio datblygu cynigion sy'n adlewyrchu'r cyfnod hwn, nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen. Rwy'n llwyr sylweddoli maint yr her hon.

Rwy'n deall yn llwyr na all *unrhyw* system gymwysterau ddatrys yr amharu ar addysgu a dysgu a phrofiadau amrywiol dysgwyr ledled Cymru. Er bod cymwysterau yn borth i ddilyniant yn y dyfodol, rhaid i ni hefyd sicrhau bod ein dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i fod yn llwyddiannus yn y cam nesaf ar eu taith. Yn y cyfnod hwn o ansicrwydd parhaus, mae sicrhau lles a thegwch i ddysgwyr yn ganolog i'm ffordd o feddwl. Yn y flwyddyn eithriadol hon, rwy'n credu mai'r peth gorau i sicrhau hynny yw canslo arholiadau'r haf i wneud y mwyaf o'r amser addysgu a dysgu yn nhymor yr haf.

O ystyried ein profiad yn nhymor yr haf a chan sylweddoli bod profiadau'r dysgwyr wedi bod yn amrywiol – rhai dysgwyr wedi gorfod hunanynysu fwy nac unwaith, rhai ysgolion wedi gorfod cau dros dro, amrywiaeth yn y dysgu cyfunol a gwahaniaeth yng ngallu'r myfyrwyr i ymgysylltu'n llwyddiannus â dysgu cyfunol – mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

sicrhau bod y proffesiwn addysg yn rhan lawn o'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno unrhyw ddatrysiad. Yn fy marn i, y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy greu cynigion polisi ar y cyd. Yn unol â hynny, rwyf wedi sefydlu Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflenwi i wneud hyn, gan ddod ag amrywiaeth o arweinwyr colegau ac ysgolion ynghyd. Bydd darparu cyngor asesu arbenigol i'r grŵp hwn fel sylwedydd swyddogol yn hollbwysig ac rwy'n croesawu'ch ymrwymiad i gefnogi'r Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflenwi fel hyn.

I sicrhau hyder a hygrededd ar draws y system addysg, rwy'n cydnabod bod gan Gymwysterau Cymru swyddogaethau statudol allweddol mewn perthynas â threfniadau asesu ar gyfer cymwysterau o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Rwyf wedi ysgrifennu atoch yn nodi'r rhesymeg dros y polisi arfaethedig, fel y nodwyd yn fy natganiad llafar ar 10 Tachwedd, ac wedi ddarparu cyfarwyddyd polisi i'r perwyl hwn. Ar ôl ystyried y cynigion polisi manwl a ddatblygir gan y Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni, byddaf yn ysgrifennu atoch eto i ddarparu cyfeiriad polisi pellach, a hynny naill ai fel atodiad i'r cyfarwyddyd amgaeedig neu fel unrhyw gyfarwyddyd newydd. Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod ypenderfyniad terfynol ynghylch y trefniadau ar gyfer arholiadau'r haf ac unrhyw drefniadau asesu amgen yn nwylo Cymwysterau Cymru.

Rwy'n datgan eto fy ymrwymiad i les, tegwch a dilyniant dysgwyr yn 2021, a disgwyliaf y bydd y datrysiad gorau yn un sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd â'r proffesiwn addysg. Fel y dywedais yn fy Natganiad Llafar, rwy'n parhau i gredu bod hon yn flwyddyn eithriadol, ac y dylem barhau i ganolbwyntio ar roi cefnogaeth i ddysgwyr tan haf 2021. Trwy barhau i gydweithio, hyderaf y gallwn ddatblygu dull gweithredu sy'n ymdrin â'r heriau eithriadol hyn y mae dysgwyr yn eu hwynebu eleni ac y gall y sector addysg ehangach fod â hyder ynddo.

Rwy'n croesawu'ch ymroddiad i gydweithio â mi yn yr ymdrech hon.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

CYFARWYDDYD O DAN ADRAN 53 O DDEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015

O dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i Gymwysterau Cymru roi sylw i'r agweddau ar bolisi llywodraeth, ac i unrhyw faterion eraill, a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i Gymwysterau Cymru roi sylw i:

- Datganiad polisi ynghylch arholiadau haf 2021 a datblygu trefniadau asesu amgen ar gyfer dysgwyr yng Nghymru a oedd i fod i sefyll arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru yr haf hwn i gefnogi eu dilyniant yn y dyfodol, dyddiedig 10 Tachwedd 2020, a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru ac sydd i'w weld drwy ddilyn y ddolen hon:

  https://llyw.cymru/datganiad-llafar-ymdrin-chymwysterau-yn-2021

- polisi Llywodraeth Cymru na ddylai carfan haf 2021 o ddysgwyr TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru sy'n dilyn cymwysterau a gymeradwywyd gan Gymwysterau Cymru sefyll arholiadau wedi'u cydgysylltu a'u hamserlennu'n genedlaethol yr haf hwn.

- polisi Llywodraeth Cymru, sef bod dull gweithredu ar sail canlyniadau gan ganolfannau yn cael ei ddatblygu a hwnnw'n gysylltiedig â dull cenedlaethol y cytunwyd arno i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Bwriad polisi Llywodraeth Cymru yw cael dull gweithredu cyffredin ledled Cymru sy'n darparu manylder a thryloywder.

- polisi Llywodraeth Cymru bod cynigion polisi ar gyfer canlyniadau gan ganolfannau yn cael eu creu ar y cyd â'r sector addysg drwy'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni sydd wedi'i sefydlu. Mewn perthynas â'r polisi hwn, gan gydnabod mai Cymwysterau Cymru yw rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru a bod ganddo'r pŵer i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â rheoleiddio cymwysterau, cred Llywodraeth Cymru ei bod yn ddymunol i Gymwysterau Cymru fod yn arsyllwr Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflenwi er mwyn darparu cyngor arbenigol.